Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** Partner Busnes Cyllid – Cyfalaf a Chorfforaethol

**Lleoliad:** Gweithio Gartref

**Cyfarwyddiaeth:** Gwasanaethau Corfforaethol

**Rhif y swydd:** BG00170

**Cyflog:** Gradd 9 (£42,403 - £46,464 y flwyddyn)

**Oriau:** 37

**Contract:** Parhaol Llawn Amser

## Crynodeb o'r Swydd

Mae'r Partner Busnes Cyllid (Cyfalaf a Chorfforaethol) yn swydd allweddol yn yr Is-adran Cyfrifyddiaeth, sy'n gyfrifol am gyflawni ystod o weithgareddau cyfrifyddu corfforaethol, rheoli'r trysorlys a thalu credydwyr ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid.

## Hysbyseb Lawn

Mae cyfle wedi codi yn Is-adran Cyfrifyddiaeth y Cyngor i gyfrifydd â chymwysterau proffesiynol oruchwylio'r swyddogaethau cyfalaf, rheoli trysorlys, TAW a chredydwyr. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau cyfrifyddu technegol cryf, galluoedd goruchwylio a rheoli rhagorol a'r gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm ac yn annibynnol i ddarparu ystod eang o wasanaethau heriol a chymhleth.

Prif atebolrwydd y swydd Partner Busnes Cyllid – Cyfalaf a Chorfforaethol yw:

- Darparu cyngor a chymorth ariannol proffesiynol ar draws y Cyngor mewn perthynas â Chyfrifo Cyfalaf, Rheoli Trysorlys a TAW.
- Paratoi, monitro, adrodd a chynghori ar Raglen Gyfalaf y Cyngor.
- Sicrhau gweithrediad swyddogaethau Rheoli Trysorlys a Chysoniad Banc effeithiol a chydymffurfio â deddfwriaeth TAW.
- Goruchwylio swyddogaeth talu Credydwyr, gan sicrhau bod anfonebau cyflenwyr yn cael eu prosesu, eu dilysu a'u talu'n briodol, a chyfrifo/talu CIS, rheolau gweithio oddi ar y gyflogres a rhwymedigaethau TAW.
- Cynnal a datblygu system Cyfrifo Asedau'r Cyngor.

- Paratoi datganiadau cyfrifon a datgeliadau ar gyfer Datganiad Cyfrifon diwedd blwyddyn y Cyngor mewn perthynas â Chyfalaf, Rheoli Trysorlys ac Offerynnau Ariannol.

Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trwyadl yn ystod y broses recriwtio.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais am Swyddi yn Gymraeg.

**Dyddiad Cau:** 24 Hydref 2024 – 12:00pm (canol nos)

**Dyddiad Cyfweld:** Wythnos yn dechrau 4 Tachwedd 2024